**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr ABERYSTWYTH a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 21 Mawrth 2024**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion:** Y Cynghorydd Keith Henson (Cadeirydd), Y Cynghorydd Endaf Edwards

**Swyddogion yn bresennol:** Owen Morgan, Katy Spain a Dana Jones

**Defnyddwyr yr Harbwr**: Brian Davies a Chris Seal

(7.35pm – 8:00pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Dim.

2. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2023**
   CYTUNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2023 yn gywir.

   **Materion yn codi**
   Cofnod 5(ii) Gofynnwyd am ddiweddariad ar y cynnig i adfywio ardal yr harbwr. Dywedodd Rheolwr yr Harbyrau nad oedd ganddo unrhyw ddiweddariad pellach ar wahân i'r ffaith bod yr ymgynghorwyr a oedd yn gweithio ar y prosiect wedi anfon e-bost yn gofyn am rywfaint o wybodaeth ychwanegol am yr ardal a oedd yn cael ei hadnabod fel Tan y Cae. Cytunwyd y byddai'r swyddogion yn gwneud ymholiadau pellach gyda'u cydweithwyr yng ngwasanaeth yr Economi ac Adfywio a dywedwyd y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhannu pan fyddai ar gael.

3. **Diweddariad gan y Gwasanaeth Harbyrau**

   - Byddai arwyddion yn cael eu gosod i hysbysu'r cyhoedd bod harbwr Aberystwyth yn harbwr gweithredol ag iddo arwynebau anwastad a pheryglon posibl eraill.

   - Dywedodd Rheolwr yr Harbyrau fod Trinity House wedi archwilio prosesau'r Cyngor o ran Cymhorthion Mordwyo (AtoNs) a'i fod wedi canfod bod y prosesau hyn yn briodol.

   - Cyflwynodd Rheolwr yr Harbyrau gynllun diagramegol o'r trefniadau dros dro o ran Cymhorthion Mordwyo (AtoNs) a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith Amddiffyn yr Arfordir yn Aberaeron. Pwysleisiwyd na ddylid ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo. Byddai copi o'r diagram yn cael ei ddosbarthu ar ffurf

Hysbysiad Lleol i Forwyr maes o law. Dywedwyd bod y Swyddogion yn ymchwilio i’r posibilrwydd o gyflwyno peiriannau talu â cherdyn yn Swyddfeydd yr Harbwr, gyda'r bwriad y gellid eu defnyddio i dalu’r ffioedd lansio ar gyfer cychod sy’n ymweld â’r harbwr am y diwrnod (ar hyn o bryd roedd modd talu’r ffioedd hyn drwy Clic sef canolfan gyswllt y Cyngor).

4. **Rhestr Aros am Angorfa**

Cytunwyd i nodi’r rhestr aros am angorfa fel y’i cyflwynwyd.

5. **Cynnal a Chadw a Glanweithdra Cyffredinol**

- Roedd disgwyl i'r contractwr a oedd wedi’i benodi i wneud y gwaith atgyweirio i Lanfa’r Harbwr gwblhau'r gwaith erbyn penwythnos y Pasg.

- Roedd y rhaglen archwiliadau wedi nodi bod angen gwneud rhywfaint o waith cynnal a chadw ac atgyweirio ar rai o asedau'r harbyrau, ac roedd y rhain wedi'u hystyried a'u blaenoriaethu. Byddai trefniadau caffael yn cael eu rhoi ar waith a byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r blaenoriaethau a bennwyd a'r gyllideb a oedd ar gael.

- Roedd arwyddion "Eich Ci, Eich Cyfrifoldeb" wedi'u chwistrellu â phaent mewn mannau allweddol o amgylch yr Harbwr i dynnu sylw at yr angen i berchnogion lanhau baw eu cŵn.

- Roedd ymarfer caffael yn cael ei gynnal i benodi contractwr i wneud arolwg o bontŵn y Cyngor. Roedd disgwyl y byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd ar yr amod bod contractwr llwyddiannus yn cael ei benodi. Unwaith y byddai adroddiad yr arolwg yn dod i law ac yn cael ei ystyried, byddai camau priodol yn cael eu cymryd.

6. **Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**

- Dywedwyd bod rhai bylchau ym morglawdd mewnol yr harbwr a bod dŵr yn llifo drwyddynt. Dywedodd Rheolwr yr Harbyrau y byddai'n cysylltu â’i gydweithwyr ym maes Dylunio Peirianneg i ganfod ai rhywbeth i’w wneud â’r dyluniad oedd hyn neu a oedd angen ymchwilio ymhellach.

- Gofynnwyd am ddiweddariad cyffredinol am garthu’r harbwr. Cadarnhaodd Rheolwr yr Harbyrau fod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith fel y gallai’r Cyngor wneud cais am drwydded newydd i alluogi gwaith carthu yn harbwr Aberystwyth yn y dyfodol. Byddai’r amgylchiadau yn yr Harbwr yn cael eu hadolygu yn ystod y

flwyddyn a byddai unrhyw waith carthu a oedd yn cael ei ystyried yn waith angenrheidiol, er mwyn cynnal y sianeli mordwyo, yn cael ei wneud ar yr amod bod cyllideb ar gael a bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi’r drwydded briodol.